



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Pennawd: Pa mor effeithiol mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu? – Trosolwg

Mae Gogledd Cymru wedi'i asesu'n dda ynghylch ei effeithiolrwydd o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Mae gan y llu ymagwedd effeithiol tuag at atal ac ymchwilio i droseddau, a mae'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Fodd bynnag, mae angen gwella'r gefnogaeth a mesurau diogelu mae'n eu darparu i bobl sy'n agored i niwed. Mae ein dyfarniad cyffredinol eleni'n welliant ar llynedd, pan wnaethom ddyfarnu bod y llu angen gwella o ran effeithiolrwydd.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n dda o ran atal troseddu, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel. Mae wedi gweithio'n galed i ddatrys problemau, gan ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn deall y bygythion a'r risgiau a wynebir gan bobl gyffredin.

Mae'r llu'n dda o ran ymchwilio i droseddau a lleihau aildroseddu. Mae wedi nodi'r angen i ddeall agoredrwydd i niwed yn ei ardal. Mae'n gweithio â phenderfyniad i sicrhau bod troseddwy'r yn cael eu dwyn i gyfiawnder. Dyrannir y mwyafrif o ymchwiliadau i swyddogion a staff â sgiliau priodol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru angen gwella o ran gwarchod y rhai hynny sy'n agored i niwed a chefnogi dioddefwyr. Mae'r llu'n dda o ran deall natur a graddfa agoredrwydd dioddefwyr i niwed, ond weithiau mae swyddogion ymateb yn methu â chynnal yr holl gamau diogelu cychwynnol. Mae rhai ymchwiliadau arbenigol yn dal i gael eu dyrannu i swyddogion nad oes ganddynt yr hyfforddiant neu brofiad sydd eu hangen i ddelio â nhw.

Mae'r llu'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Mae'n gweithio gyda phartneriaid i ddeall bygythion difrifol, ond mae angen i'r cydweithredu hwn gael ei ddatblygu ar lefel bartneriaeth uwch. Blaenoriaethir grwpiau troseddu'n briodol, a mae swyddogion yn eu rheoli tan nad ydynt yn cyflwyno bygythiad bellach. Mae prosiectau effeithiol yn eu lle i rwystro pobl rhag ymgysylltu â throseddau difrifol a threfnedig, a mae'r llu'n monitro troseddwy'r i'w hatal rhag aildroseddu.

Mae'r trefniadau sydd yn eu lle gyda'r llu i gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol yn dda. Mae ganddo arweinyddiaeth effeithiol sy'n gyfrifol am gynllunio ei ymateb i fygythion y [Gofyniad Plismona Strategol](#), ar y cyd â gwasanaethau brys eraill a sefydliadau partner. Mae wedi asesu'r bygythiad o ymosodiad sy'n galw am ymateb arfog a mae ganddo drefniadau yn eu lle i adolygu ei alluogrwydd arfau tanio.